

Pfeg – Canolfan ragoriaeth mewn addysg ariannol

Ein gweledigaeth:

Fel yr ysgol cyfrwng Cymraeg gyntaf yng Nghymru sydd yn ymgeisio am achrediad ar gyfer y rhaglen ragoriaeth mewn addysg ariannol rydym ni, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn awyddus i fabwysiadu argymhellion Estyn a nodwyd yn ei hadroddiad am addysg ariannol mewn ysgolion (2017). Rydym, felly, yn anelu at gynllunio a darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu a chymhwys o eu medrau ariannol ar draws y cwricwlwm, i fonitro ac arfarnu ansawdd y dysgu a'r addysgu ar gyfer addysg ariannol ac i ddarparu hyfforddiant priodol i staff er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol.

Pwysleisir pwysigrwydd addysg ariannol hefyd gan yr Athro Graham Donaldson yn ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus.' Noda bod addysg ariannol yn cyfrannu'n dda i'r pedwar diben cwricwlaidd a bod hi'n hanfodol bod pob disgybl yn gadael yr ysgol gyda dealltwriaeth dda o arian er mwyn teimlo'n hyderus i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Anelwn, felly, i sicrhau bod ein disgyblion ninna'u'n hyderus a gwybodus i ymdopi â chymhlethododau penderfyniadau ariannol. Ymdrechwn i roi'r addysg, yr hyder a'r sgiliau angenrheidiol iddynt fel eu bod yn medru gwneud penderfyniadau cyllidol gwybodus ac yn gallu rheoli eu harian yn effeithiol. Cefnogwn ein hathrawon i ddarparu cyfleoedd o safon uchel iddynt er mwyn eu bod yn medru ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau ariannol sydd eu hangen ar ddisgyblion i fod yn ariannol-alluog.

Centre of Excellence in Financial Education

Our mission:

As the first Welsh-medium school in Wales applying for an accreditation in the financial education programme we, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin are keen to adopt the recommendations identified by Estyn in its report on financial education in schools (2017). We, therefore, aim to plan and provide meaningful opportunities for pupils to develop and apply their financial skills across the curriculum, to monitor and evaluate the quality of teaching and learning for financial education and to provide appropriate training to staff in order to improve the provision for financial education.

The importance of financial education is also emphasised by Professor Graham Donaldson in his report ' successful future.' It states that financial education contributes well to the four curricular purpose and that it is essential that all pupils leave school with a good understanding of money in order to feel confident to plan for the future. We aim, therefore, to ensure that our pupils as we are confident and knowledgeable to cope with the complexities of financial decisions. We strive to provide you with the education, the confidence and skills they need so that they are able to make informed fiscal decisions and able to manage their money effectively. We support our teachers to provide high quality opportunities for them so that they are able to on the knowledge, understanding and skills which pupils need to be financially.